Datganiad Ysgol Santes Helen
Y Grant Datblygu Disgyblion

Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academaidd 2026 i 2027.

Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.

Os yw'ch rhifau yn 5 neu lai, defnyddiwch * yn lle'r dyraniad er mwyn diogelu plant rhag cael eu hadnabod.

Trosolwg Ysgolion

Manylion	**Data**
Enw'r ysgol	Santes Helen
Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol	30
Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD	46%
Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn	Medi 2026
Dyddiad y caiff ei adolygu	Medi 2027
Awdurdodwyd y datganiad gan	Arweinydd GDD yr ALl
Yn arwain ar y GDD	Eirian Bradley-Roberts
Llywodraethwr sy'n arwain	Antonio Dos Remedios

Trosolwg Cyllid

Manylion	**Swm**
Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academaidd hon	£14,950

Rhan A: Cynllun Strategaeth

Datganiad o fwriad

Ein nod yw sicrhau nad yw cefndir economaidd-gymdeithasol yn pennu pa mor dda y mae plentyn yn llwyddo yn Ysgol Santes Helen. Mae'r ysgol wedi adnabod y dau rwystr hyn :

Presenoldeb
Mae presenoldeb dysgwyr sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim 4% yn is na gweddill yr ysgol. Mae rhai dysgwyr hefyd yn ei chael yn anodd setlo ac ymgysylltu â dysgu ar ddechrau'r diwrnod.

Llythrennedd
Mae data'r ysgol yn dangos nad yw rhai dysgwyr yn gwneud y cynnydd disgwyliedig mewn darllen, gan effeithio ar eu gallu i gael mynediad at eu dysgu.

Canlyniadau a fwriedir

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

Canlyniad a fwriedir	**Meini prawf llwyddiant**
Gwella prydlondeb a phresenoldeb dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau i fynychu'r ysgol yn rheolaidd.	Llinell Sylfaen: Presenoldeb y grŵp targed = 87% 23% o ddysgwyr yn absennol yn barhaus Targed: Presenoldeb y grŵp targed yn codi i 90% Gostyngiad yn nifer y dysgwyr sy'n absennol yn barhaus i 0.
Sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd yn eu sgiliau darllen ac yn datblygu mwy o hyder wrth ddarllen.	Llinell Sylfaen: 71% (5) o ddysgwyr yn derbyn sgôr darllen o 70 neu is, a 100% (8) o ddysgwyr yn wynebu anawsterau wrth adnabod llythrennau a geiriau cyffredin. Targed: 50% o'r dysgwyr yn cynyddu eu sgôr darllen i 75 neu uwch, a 100% o ddysgwyr yn dangos gwelliant clir yn eu gallu i adnabod llythrennau, geiriau a darllen testun syml yn annibynnol.
Darparu cefnogaeth emosiynol i ddysgwyr sy'n cyrraedd yr ysgol yn hwyr neu'n ei chael yn anodd setlo.	Mae dysgwyr sy'n cyrraedd yr ysgol yn hwyr neu'n cael anhawster setlo yn derbyn cymorth priodol i'w galluogi i ymgysylltu â'u dysgu. Mae dysgwyr yn setlo'n llwyddiannus ac yn gallu dychwelyd at weithgareddau'r dosbarth yn brydlon. Mae dysgwyr yn dangos mwy o allu i reoleiddio eu hymddygiad a chanolbwyntio ar eu dysgu.

Gweithgarwch yn y flwyddyn academaidd hon

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academaidd hon** i gyflawni y canlyniadau a fwriedir a restrir uchod.

Bydd y grant yn cael ei ddefnyddio i leihau'r rhwystrau sy'n atal rhai o'n dysgwyr mwyaf bregus rhag gwneud cynnydd. Caiff y gweithgareddau eu cynllunio ar lefel ysgol gyfan, gyda ffocws penodol ar anghenion dysgwyr sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol i ddysgu. Defnyddir y rhan fwyaf o'r grant i ariannu cymorth ychwanegol gan staff. Mae nifer o'r dysgwyr sy'n derbyn y gefnogaeth hon hefyd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dysgu ac addysgu

Cost wedi'i chyllidebu: £14,950

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Darparu ymyrraeth darllen ddyddiol wedi'i thargedu gan Gynorthwyydd Addysgu (tua 20 awr yr wythnos o gefnogaeth ychwanegol i ddysgwyr sydd angen cymorth i ddatblygu eu sgiliau darllen a llythrennedd)	Mae ymchwil yr EEF yn dangos y gall ymyriadau llythrennedd wedi'u targedu mewn grwpiau bach neu'n unigol gael effaith gadarnhaol ar gynnydd dysgwyr. Mae darparu cefnogaeth ychwanegol gan oedolyn medrus yn gallu helpu dysgwyr i ddatblygu eu rhuglder darllen, eu dealltwriaeth a'u hyder, gan eu galluogi i gael mynediad gwell at y cwricwlwm.
Defnyddio staff addysgu i ddarparu cymorth a ymyriadau wedi'u targedu i ddisgyblion sy'n wynebu rhwystrau i ddatblygu eu sgiliau darllen. Bydd disgyblion yn cael eu hadnabod drwy ddata sgrinwyr iaith a darllen CAL:ON, gan alluogi'r ysgol i ddarparu cymorth amserol a phwrpasol mewn grwpiau bach neu ar sail un-i-un. Bydd yr ymyriadau'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau darllen, ffoneg, geirfa, dealltwriaeth, iaith a chyfathrebu.	Mae CAL:ON Cymru yn fenter genedlaethol ddwyieithog sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r sgrinwyr Iaith a Darllen wedi'u cynllunio i adnabod dysgwyr sydd mewn perygl o brofi anawsterau iaith neu ddarllen yn gynnar. Mae ymchwil yn dangos bod adnabod anghenion yn gynnar a darparu ymyriadau wedi'u targedu yn gallu gwella deilliannau llythrennedd disgyblion.

Ysgolion Bro (i gynnwys: (i) meithrin partneriaethau cryf gyda theuluoedd; (ii) ymateb i anghenion y gymuned; (iii) cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill)

Cost wedi'i chyllidebu: £0

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn

Presenoldeb - Hyrwyddo pwysigrwydd prydlondeb a phresenoldeb da'n gyson drwy gyfathrebu rheolaidd â rhieni a gofalwyr, mewn cyfarfodydd, gwasanaethau ysgol a sgyrsiau anffurfiol. Datblygu perthnasoedd cadarnhaol â theuluoedd er mwyn trafod unrhyw rwystrau i fynychu'r ysgol yn gynnar a chynnig cefnogaeth briodol pan fo angen.	Mae ymchwil yn dangos bod partneriaethau cryf rhwng cartref ac ysgol a chyfathrebu rheolaidd â rhieni yn gallu cyfrannu at well presenoldeb ac ymgysylltiad â dysgu. Mae datblygu perthnasoedd cadarnhaol a chynnal disgwyliadau uchel ynghylch presenoldeb yn elfen bwysig o ddull ysgol gyfan.
Mae Llywodraethwraig yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i ddarllen gyda dysgwyr unigol a grwpiau bach, gan ddarparu cyfleoedd ychwanegol i ymarfer darllen, datblygu rhuglder a meithrin hyder fel darllenwyr.	Mae ymchwil yn awgrymu bod darllen rheolaidd gydag oedolyn a darparu cyfleoedd ychwanegol i ymarfer darllen yn gallu cefnogi datblygiad rhuglder, dealltwriaeth a mwynhad o ddarllen. Gall sesiynau unigol neu grŵp bach fod yn arbennig o fuddiol i ddysgwyr sydd angen cefnogaeth ychwanegol.

Strategaethau ehangach (er enghraifft a lle bo hynny'n berthnasol, lechyd a Lles, Cwricwlwm a Chymwysterau, Arweinyddiaeth a Chodi Dyheadau)

Cost wedi'i chyllidebu: £0

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Darparu cefnogaeth emosiynol ac ymyrraeth gynnar i ddysgwyr sy'n cyrraedd yr ysgol yn hwyr neu sy'n ei chael yn anodd setlo ar ddechrau'r diwrnod. Er enghraifft, drwy roi cyfle iddynt dreulio cyfnod byr mewn dosbarth arall neu ofod tawel i reoleiddio eu hemosiynau cyn ymuno â'u dosbarth.	Mae ymchwil yn dangos bod darparu cymorth emosiynol ac ymyrraeth gynnar yn gallu helpu dysgwyr i reoleiddio eu hemosiynau, lleihau rhwystrau i ddysgu a gwella eu gallu i ymgysylltu â gweithgareddau'r dosbarth. Gall trefniadau pontio byr, megis defnyddio gofod tawel neu ddosbarth arall i setlo, gefnogi dysgwyr sy'n cyrraedd yr ysgol yn hwyr neu'n wynebu anawsterau wrth ddechrau'r diwrnod, gan eu helpu i fod yn barod i ddysgu.

Cyfanswm cost y ceisiadau: **£14,950**

Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academaidd flaenorol

Canlyniadau'r GDD

Mae hyn yn rhoi manylion yr effaith a gafodd ein gweithgarwch GDD ar ddisgyblion ym mlwyddyn academaidd 2025 i 2026.

Gweithgarwch	Effaith
Darparu ymyrraeth darllen ddyddiol wedi'i thargedu gan Gynorthwyydd Addysgu (tua 20 awr yr wythnos o	Nododd staff welliant yn 100% O'r disgyblion a dderbyniodd gymorth darllen rheolaidd, gwnaeth 100% gynnydd yn eu sgiliau darllen yn ôl asesiadau'r ysgol.

gefnogaeth ychwanegol i ddysgwyr sydd angen cymorth i ddatblygu eu sgiliau darllen a llythrennedd)	
Bu Llywodraethwraig yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i ddarllen gyda dysgwyr unigol a grwpiau bach, gan ddarparu cyfleoedd ychwanegol i ymarfer darllen, datblygu rhuglder a meithrin hyder fel darllenwyr.	Nododd staff welliant yn 100% O'r disgyblion a dderbyniodd gymorth darllen rheolaidd, gwnaeth 100% gynnydd yn eu sgiliau darllen yn ôl asesiadau'r ysgol. Cynyddodd cyfran y disgyblion a oedd yn dod â'u bagiau darllen i'r ysgol ac yn cofnodi darllen gartref yn rheolaidd.

Rhaglenni a ddarperir yn allanol

Dylech gynnwys enwau unrhyw raglenni a brynwyd gennych yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Bydd hyn yn ein helpu i ganfod pa rai sy'n boblogaidd yng Nghymru.

Rhaglen	Darparwr
N/A	N/A